

Efelychu Crist

“Byddwch yn efelychwyr ohonof fi, fel yr wyf ffinnau o Grist.” (adn. 11:1)

Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 10:23 – 11: 1 ac yna myfyrio

Nid bod yn ymffrostgar oedd Paul wrth ein hannog i ddilyn ei esiampl fel y dilynodd ef esiampl Crist. I'r gwrthwyneb. Yn wir, mae'n gwrthwynebu'r ffordd roedd pobl Corinth wedi gwirioni ar arweinwyr hunanbwysig oedd yn trio ennill dilynwyr, waeth beth oedd safon eu gonestrwydd. Mae Paul yn ei gynnig ei hun fel esiampl *dim ond cyn belled â'i fod yn efelychu Crist*.

Un rheswm pam roedd Paul yn ymladd mor ffyrnig dros ei enw da fel apostol oedd ei fod yn credu bod yn rhaid i'r Efengyl a bregethai fod yn amlwg ym mywyd ei chenhadon. Mae'r ffordd roedd Paul yn efelychu Crist yn amlwg o'r cyd-destun yma. Roedd Paul yn byw *er gogoniant i Dduw ac er lles eraill*. Mae Paul yn cadarnhau y *dylen ni ymhyfrydu yn ein rhyddid yng Nghrist*. Roedd Iesu'n rhydd yn ei hanfod, yn tramgwyddo'r arweinwyr crefyddol drwy gyd-fwyta â phechaduriaid oedd ag enw drwg, a thrwy beidio â galw unrhyw fwyd yn aflan. Ond nid hunanfaldod mo'i ryddid. Fel roedd popeth a wnâi Iesu yn dwyn clod i'w Dad ac er achubiaeth eraill, felly hefyd mae Paul yn ystyried lles eraill o flaen ei les ei hun (adn. 24, 33) ac yn annog y dylai popeth gael ei wneud er gogoniant i Dduw (adn. 31). Ac fel y bu i Iesu fyw a marw i achub eraill, felly hefyd y dylen ninnau ystyried achubiaeth eraill ym mhopeth a wnawn (adn. 33).

Ond beth am ein perthynas â'r rhai sydd eisoes wedi'u hachub – ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist? Pan fydd Cristnogion yn anghytuno ar faterion (ac mae nifer o'r materion hynny), yna bydd y rhai sy'n efelychu Crist am roi esiampl y groes ar waith a cheisio anghytuno'n ddymunol. Pe byddai lles eraill yn cael y lle blaenllaw yn ein meddyliau pan fyddwn yn trafod ein hanghytundebau, gymaint gwahanol fyddai Eglwys Iesu Grist.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 19:1–10; Actau 11:1–18; Rhuf. 14:1–15

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Pedr yn datrys yr anghytundeb yn Jerwsalem?
2. Beth ydy sail ein bywyd gyda'n gilydd fel credinwyr, yn ôl Paul?

Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, helpa fi i efelychu dy Fab a'r apostol Paul ac i wneud popeth yn ôl esiampl y groes. Boed i mi geisio dy glod di ym mhopeth, hyd yn oed wrth anghytuno'n go iawn ag eraill yn dy gorff. Yn enw Iesu. Amen.